# Deddf y Môr

Hysbysiad Hwylus

Gorffennaf 2014

## Cyflwyniad

*Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009*[1] (a elwir yn Ddeddf y Môr) **yw'r ddeddfwriaeth gyntaf yn y DU i ystyried amgylchedd y môr yn ei gyfanrwydd** ac mae'n amlinellu'r darpariaethau ar gyfer rheoli'r moroedd yn well. Eu nod yw ceisio **cefnforoedd a moroedd glân, iach, diogel, cynhyrchiol ac amrywiol o safbwynt biolegol** drwy sefydlu systemau ar gyfer sicrhau datblygiad cynaliadwy amgylchedd yr arfordir a'r môr[2]. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno darpariaethau ar gyfer dyfroedd alltraeth y DU (12-200 o filltiroedd morol) a dyfroedd glannau y glannau yng Nghymru a Lloegr (0-12 o filltiroedd morol).

**Mae Deddf y Môr yn cwmpasu gwaith cynllunio morol a chadwraeth natur forol yn benodol,** ond mae hefyd wedi gwneud darpariaethau ar gyfer creu'r Sefydliad Rheoli Morol, creu cyfundrefn reoleiddio newydd ar gyfer trwyddedu morol, dulliau rheoli a gorfodi diwygiedig ar gyfer pysgodfeydd, a chreu pwerau newydd o ran mynediad i'r arfordir[3].

Mae Deddf y Môr yn cynnwys diwygiad i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*[4] i greu Parth Cymru, sy'n cael ei ddiffinio fel y môr ger Cymru sy'n ymestyn allan cyn belled â therfyn pysgodfeydd Prydain ym Môr Iwerddon – y llinell ganol rhwng Cymru ac Iwerddon. Rhoddwyd nifer o bwerau newydd ac amrywiol i Weinidogion Cymru ar gyfer rheoli Parth Cymru, sy'n golygu bod y Ddeddf yn datganoli cyfrifoldeb sylweddol i Gymru i reoli ei moroedd.

## Cynllunio Morol

Mae Rhan 3 o Ddeddf y Môr yn creu system statudol ar gyfer cynllunio morol, er mwyn rheoli ac arwain amrywiaeth eang o weithgareddau morol a'r defnydd a wneir o'r môr. Yn y gorffennol roedd hyn yn cael ei reoli a'i reoleiddio ar sail sectorau unigol. **Dynododd y Ddeddf nifer o Ranbarthau Cynllunio Morol** ac Awdurdodau Cynllunio Morol sy'n gyfrifol am ddatblygu Cynllun Morol ar gyfer eu Rhanbarthau Cynllunio Morol cyfan neu ran ohonynt[5]. Mae Llywodraeth Cymru wedi'i dynodi fel yr awdurdod cynllunio ar gyfer ardal y glannau yng Nghymru (0-12 o filltiroedd morol) a rhanbarthau alltraeth Cymru (0-12 o filltiroedd morol, hyd at y llinell ganol gydag Iwerddon).

---

[1] ***Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009*** (Saesneg yn unig) [fel ar 8 Gorffennaf 2014]
[2] *ibid*
[3] Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC), ***Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009***, (gwefan – Saesneg yn unig) [fel ar 7 Gorffennaf 2014]
[4] ***Deddf Llywodraeth Cymru 2006*** (Saesneg yn unig) [fel ar 8 Gorffennaf 2014]
[5] ***Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009*** (pennod 23 – Saesneg yn unig)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales
Research Service

## Cynlluniau Morol

Cyflwynwyd y **strategaeth** hirdymor **ar gyfer rheoli datblygiad cynaliadwy yn ardal forol y DU yn y Datganiad Polisi Morol**[6] ym mis Mawrth 2011. Mae'r Datganiad Polisi Morol yn datgan ei fod yn cyflwyno gweledigaeth gyffredin ar gyfer holl weinyddiaethau'r DU o gael cefnforoedd a moroedd glân, iach, diogel, cynhyrchiol ac amrywiol o safbwynt biolegol. Nod y Datganiad Polisi Morol yw ceisio hwyluso a chefnogi'r gwaith o ddatblygu Cynlluniau Morol, gan sicrhau eu bod yn cyflawni'r amcanion morol lefel uchel ac yn defnyddio adnoddau morol mewn ffordd gynaliadwy.

Bwriedir i'r Cynlluniau Morol greu **dull cynllunio gofodol ystyrlon a rhagweithiol o ran y ffordd y mae'r ardal forol yn cael ei rheoli**[7]. Bydd Cynlluniau Morol yn amlinellu sut y bydd y Datganiadau Polisi Morol yn cael eu gweithredu ym mhob Rhanbarth Cynllunio Morol, gan ddarparu canllawiau polisi manwl ac amcanion penodol ar gyfer pob Rhanbarth. Gan ddefnyddio'r blaenoriaethau sy'n cael eu pennu yn y Datganiad Polisi Morol, mae'r Cynlluniau Morol yn cynnig sicrwydd polisi a fydd yn rhoi arweiniad i ddatblygwyr o ran lle y gallant gyflawni gweithgareddau, neu lle y gellir gosod amodau neu gyfyngiadau ar yr hyn y byddant yn ei wneud[8]. Gellir sicrhau cysondeb yn y broses gwneud penderfyniadau oherwydd bydd pob gweithredwr a rheoleiddiwr mewn ardal benodol yn cael eu llywio gan yr un cynllun.

# Cynllunio Morol yng Nghymru

Drwy fabwysiadu'r Datganiad Polisi Morol, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i'r gofyniad i gyflwyno Cynlluniau Morol ar gyfer Cymru.

Ar 16 Chwefror 2011 lansiwyd ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru[9] a oedd yn gofyn am sylwadau ar sut y dylid datblygu cynllunio morol yng Nghymru, yn unol â chyfrifoldebau o dan Ddeddf y Môr. **Roedd yr ymgynghoriad yn cyflwyno bwriad Llywodraeth Cymru i gyflwyno Cynllun Morol Cenedlaethol i Gymru erbyn 2012/13.** Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 11 Mai 2011, a derbyniwyd cyfanswm o 47 o ymatebion[10]. Dywedodd Llywodraeth Cymru nad oedd unrhyw un o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r ymagwedd a awgrymwyd ar gyfer cynllunio morol yng Nghymru.

**Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan ei bod yn bwriadu cyflwyno Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru erbyn 2015**[11]. Daeth ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Ddatganiad ynghylch Ymgysylltu â'r Cyhoedd ar Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru[12] i ben yn ddiweddar. Roedd yn gofyn am sylwadau ar sut a phryd y byddai Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid yn ystod y broses o gynhyrchu Cynllun Morol i Gymru. Lansiwyd yr ymgynghoriad ar 3 Chwefror 2014, a daeth i ben ar 28 Mawrth 2014 a chafwyd cyfanswm o

---

[6] ***Datganiad Polisi Morol y DU*** Llywodraeth EM, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, Llywodraeth yr Alban, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Mawrth 2011 [fel ar 7 Gorffennaf 2014]
[7] *ibid*
[8] *ibid*
[9] Llywodraeth Cymru, ***Datblygu Cynaliadwy ar gyfer moroedd Cymru: Ein dull o ymdrin â chynllunio morol yng Nghymru***, 16 Chwefror 2011 [fel ar 7 Gorffennaf 2014]
[10] Llywodraeth Cymru, ***Crynodeb o Ymatebion i'r Ymgynghoriad: Datblygu cynaliadwy ym moroedd Cymru: Ein dull o ymdrin â chynllunio morol yng Nghymru***, 2012 [fel ar 7 Gorffennaf 2014]
[11] Llywodraeth Cymru, ***Datganiad o Gyfranogiad y Cyhoedd ar gyfer Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru***, 3 Chwefror 2014 [fel ar 7 Gorffennaf 2014]
[12] *ibid*

56 o ymatebion.  Mae'r Datganiad Ynghylch Ymgysylltu â'r Cyhoedd yn ofyniad cyfreithiol o dan Ddeddf y Môr, ac mae'n rhaid ei gyhoeddi cyn dechrau ar unrhyw waith cynllunio morol.

Yn ôl Llywodraeth Cymru, **roedd 89% o'r ymatebwyr yn cytuno â'u dull o ymgysylltu â'r cyhoedd**[13]. Fodd bynnag, cafwyd awgrymiadau ar sut i wella'r ffordd y gallai Llywodraeth Cymru gyfleu manteision cadarnhaol ymgysylltu â'r cyhoedd i randdeiliaid.  Dywedodd 5% o'r ymatebwyr eu bod yn anghytuno â chynigion Llywodraeth Cymru, a'r prif reswm a roddwyd oedd canfyddiad o ddiffyg ymgysylltu â'r diwydiant pysgota.

Cyn iddynt gael eu mabwysiadu, mae'n rhaid i Lywodraeth y DU gytuno ar y cynlluniau cenedlaethol alltraeth a glannau.  Bob chwe mlynedd, bydd yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gyflwyno adroddiadau ar weithredu Cynlluniau Morol Cymru i'r Cynulliad[14]. Mae'n rhaid i bob awdurdodiad a phenderfyniad gorfodi sy'n effeithio, neu a allai effeithio, ar yr ardal forol, gydymffurfio â'r Cynlluniau Morol neu, pan na fydd Cynllun Morol wedi'i fabwysiadu eto, y Datganiad Polisi Morol[15].

## Cadwraeth Forol yng Nghymru

Mae Rhan 5 o Ddeddf y Môr yn canolbwyntio ar ddiogelu'r amgylchedd morol a grymuso gweinyddiaethau'r DU i ddynodi Parthau Cadwraeth Morol.  **Diben y mesurau cadwraeth hyn yw atal bioamrywiaeth forol y DU rhag dirywio, adfer cynefinoedd sydd wedi'u difrodi, a hyrwyddo gweithrediad ecosystemau iach**.

Mae'r Datganiad Polisi Morol yn datgan bod gweinyddiaethau'r DU yn ymroddedig i gwblhau rhwydwaith sy'n gydlynus yn economaidd o Ardaloedd Morol Gwarchodedig erbyn 2012.  Bydd y rhwydwaith hwn yn cynnwys yr Ardaloedd Morol Gwarchodedig presennol, yn ogystal ag Ardaloedd Morol Gwarchodedig a  Pharthau Cadwraeth Morol sydd newydd eu dynodi a safleoedd cadwraeth rhyngwladol pwysig eraill, yn cynnwys Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, sy'n cael eu dynodi o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd[16] ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, sy'n cael eu dosbarthu o dan y Gyfarwyddeb Gwarchod Adar Gwyllt[17]. Bydd y system hon o ardaloedd gwarchodedig yn cyfrannu at allu gweinyddiaethau'r DU i gyflawni eu hymrwymiadau cadwraeth morol Ewropeaidd a rhyngwladol; mae Cyfarwyddeb Fframwaith Strategaeth Forol y Comisiwn Ewropeaidd[18] yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau gyflawni statws amgylcheddol da yn yr ardal forol erbyn 2021.

## Cadwraeth Forol yng Nghymru

Mae gan Lywodraeth Cymru y pwerau i gyflwyno Parthau Cadwraeth Morol yn ardal y glannau yng Nghymru.  Sefydlwyd Prosiect Parthau Cadwraeth Morol Cymru gan Lywodraeth Cymru er mwyn nodi Parthau Cadwraeth Morol newydd posibl yn nyfroedd Cymru a lansiwyd ymgynghoriad19 ar gynigion ar gyfer deg lleoliad posibl ar gyfer Parthau Cadwraeth Morol rhwng 19 Ebrill a 31 Gorffennaf 2012.  Cynigiwyd pe byddai unrhyw rai o'r safleoedd yn cael eu dynodi

---

[13] Llywodraeth Cymru, ***Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad am y Datganiad drafft o Gyfranogiad (DGC) y Cyhoedd ar gyfer Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (CMCC)***, 2014 [fel ar 7 Gorffennaf 2014]
[14] Llywodraeth Cymru, ***Datblygu cynaliadwy ar gyfer moroedd Cymru: Ein dull o ymdrin â chynllunio morol yng Nghymru***, 16 Chwefror 2011 [fel ar 7 Gorffennaf 2014]
[15] *ibid*
[16] ***OJ L 206, 22.7.92***
[17] ***OJ L 20/7, 26.1.10***
[18] Safbwynt cyffredin y Cygnor ar gyfer mabwysiadu un o gyfarwyddebau Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n sefydlu Fframwaith Gweithredu Cymunedol ym maes Polisi Amgylcheddol Morol (***Marine Strategy Framework Directive***), 2008.
[19] Llywodraeth Cymru, ***Parthau Cadwraeth Morol – Opsiynau safleoedd posibl ar gyfer dyfroedd Cymru***, 19 Ebrill 2012 [fel ar 8 Gorffennaf 2014]

fel Parthau Cadwraeth Morol, byddent yn derbyn y lefel uchaf o ddiogelwch, lle y byddai pob un o'r cynefinoedd a'r rhywogaeth yn yr ardaloedd yn cael eu diogelu rhag pob gweithgarwch echdynnu, dyddodi, niweidiol neu aflonyddol20. Derbyniwyd 6,712 o ymatebion yn yr ymgynghoriad, ymatebion a oedd yn mynegi safbwyntiau cryf a gwahanol[21].

Yr elfen fwyaf dadleuol oedd y lefel uchel o warchodaeth arfaethedig a fyddai'n cael ei chynnig i'r safleoedd. Yn dilyn yr ymgynghoriad, sefydlwyd Tîm Gorchwyl a Gorffen amlddisgyblaeth, wedi'i ategu gan Grŵp Rhanddeiliaid, er mwyn datblygu'r gwaith ar Barthau Morol Gwarchodedig yng Nghymru a chyflwyno adroddiad ar yr argymhellion ym mis Ebrill 2013, gan ystyried canfyddiadau'r ymgynghoriad[22]. O ran yr ymgynghoriad, dywedodd y Tîm Gorchwyl a Gorffen, er bod nifer o'r ymatebwyr yn cefnogi'r Parthau Cadwraeth Morol mewn egwyddor, codwyd cwestiynau ynglŷn â'r dystiolaeth o'r angen am safleoedd o'r fath a'u budd i'r amgylchedd morol[23].

Yn ogystal, roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn y byddai effeithiau economaidd-gymdeithasol annerbyniol yn deillio o'r opsiynau a gyflwynwyd o ran safleoedd[24]. **Gwnaed argymhelliad dilynol gan y Tîm Gorchwyl a Gorffen y dylai Llywodraeth Cymru ddileu pob darpar safle o ymgynghoriad 2012** ac, yn hytrach, cynnal adolygiad trylwyr o'r dystiolaeth a mabwysiadu strategaeth lle y bydd unrhyw fylchau yn y rhwydwaith presennol o Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn cael eu nodi fel safleoedd ar gyfer Parthau Cadwraeth Morol posibl; **ar hyn o bryd mae mwy na 36% o foroedd tiriogaethol Cymru wedi'u dynodi'n Ardaloedd Morol Gwarchodedig, gan gynnwys 11 Ardal Cadwraeth Arbennig, deg Ardal Gwarchodaeth Arbennig a Gwarchodfa Natur Forol (Ynys Skomer).** Hefyd, pe byddai'r lefel uchaf o ddiogelwch yn fuddiol i safleoedd Parthau Cadwraeth Morol, argymhellwyd y dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu mewn ffordd agored gyda chymunedau lleol i ddangos sut y gallai atebion newydd leihau'r effaith ar ddefnyddwyr a chyflawni'r anghenion cadwraeth ar yr un pryd[25].

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi deddfu darpariaethau Rhan 5 o Ddeddf y Môr eto, sy'n ei gwneud yn ofynnol iddi ddatblygu rhwydwaith cydlynus o Ardaloedd Morol Gwarchodedig ac adrodd ar y cynnydd sy'n cael ei wneud i gyflawni hynny. Nid oes dyddiad wedi'i bennu hyd yma ar gyfer deddfu'r darpariaethau hyn.

Ar 18 Gorffennaf 2013, cafwyd cyhoeddiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd, Alun Davies, a nododd, "er mwyn osgoi unrhyw ansicrwydd pellach ynglŷn â'r opsiynau a gyflwynwyd fel rhan o ymgynghoriad 2012" **byddai Llywodraeth Cymru yn dileu pob un o'r safleoedd arfaethedig ar gyfer Parthau Cadwraeth Morol** a'i fod wedi comisiynu asesiad o'r Ardaloedd Morol Gwarchodedig presennol er mwyn nodi unrhyw fylchau yn y rhwydwaith o ardaloedd gwarchodedig ac i wneud gwelliannau[26]. Cyhoeddodd hefyd y byddai mewn sefyllfa i wneud penderfyniad ar pa gamau pellach y bydd angen eu cymryd erbyn dechrau 2014[27].

---

[20] Llywodraeth Cymru, ***Parthau Cadwraeth Morol – Opsiynau safleoedd posibl ar gyfer dyfroedd Cymru*** , 19 Ebrill 2012 [fel ar 8 Gorffennaf 2014]
[21] Llywodraeth Cymru, ***Adroddiad y Tîm Gorchwyl a Gorffen ar Barthau Cadwraeth Morol yng Nghymru***, Ebrill 2013 [fel ar 8 Gorffennaf 2014]
[22] *ibid*
[23] *ibid*
[24] *ibid*
[25] *ibid*
[26] Llywodraeth Cymru, Alun Davies (Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd), ***Parthau Cadwraeth Morol ac Ardaloedd Morol Gwarchodedig yng Nghymru***, Datganiad Ysgrifenedig, 18 Gorffennaf 2013 [fel ar 8 Gorffennaf 2014]
[27] *ibid*

## Darpariaethau ychwanegol y Ddeddf

### Y Sefydliad Rheoli Morol

Mae Rhannau 1 a 2 o Ddeddf y Môr yn cynnwys manylion am greu'r Sefydliad Rheoli Morol, a chylch gwaith y sefydliad hwn. Y Corff Cyhoeddus Anadrannol gweithredol hwn sy'n gyfrifol am **arfer swyddogaethau morol ar gyfer dyfroedd o amgylch Lloegr ac ardal alltraeth y DU.** Bydd hefyd yn cyflawni rhai swyddogaethau heb eu datganoli yn rhanbarthau'r glannau yng Nghymru. Bydd y Sefydliad Rheoli Morol yn adrodd yn ôl yn ffurfiol i Senedd y DU drwy'r Ysgrifennydd Gwladol.

### Trwyddedu morol

Mae Rhan 4 o Ddeddf y Môr yn dod â ffactorau amgylcheddol, iechyd pobl a ffactorau diogelwch mordwyo ynghyd mewn un penderfyniad trwyddedu. Mae'r rheoliadau newydd yn diddymu'r elfennau a oedd yn gorgyffwrdd yn y deddfwriaethau presennol, sef Rhan 2 o *Ddeddf Diogelu Bwyd a'r Amgylchedd 1985*[28] a Rhan 2 o *Ddeddf Amddiffyn y Glannau 1949*[29]. Mae'r Ddeddf yn mynnu bod angen sicrhau trwydded forol cyn cynnal gweithgarwch morol trwyddedadwy yn nyfroedd Cymru, sy'n cynnwys gwaith adeiladu ar wely'r môr, gwaddodi unrhyw wrthrych, carthu a chloddio am agregau. Gallai torri'r drwydded forol arwain at ddirwy o hyd at £50,000 ar gollfarn ddiannod neu ddirwy anghyfyngedig a/neu hyd at ddwy flynedd o garchar drwy dditiad. Fodd bynnag, nid oes angen trwydded ar gyfer rhai gweithgareddau, gan gynnwys gweithgareddau treillio a wneir ar ran awdurdod harbwr. Llywodraeth Cymru yw'r awdurdod trwyddedu ar gyfer rhanbarth glannau Cymru a'r **Tîm Trwyddedu Morol yn Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gweinyddu'r trwyddedau morol ar ran Llywodraeth Cymru.** Fodd bynnag, yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n gyfrifol am drwyddedu ar gyfer y diwydiant olew a nwy ac amddiffyn, a'r Sefydliad Rheoli Morol fydd yn gyfrifol am drwyddedu rhanbarthau alltraeth ar draws y DU.

### Pysgodfeydd

Llywodraeth Cymru a arferai fod yn gyfrifol am reoli a gorfodi pysgodfeydd hyd at 12 milltir forol oddi ar arfordir Cymru; fodd bynnag, yn dilyn creu Parth Cymru **yn Rhan 2 Deddf y Môr, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb dros y swyddogaethau hyn i ffiniau pysgodfeydd Prydain.** Llywodraeth Cymru sy'n bennaf cyfrifol yn awr am reoli a gorfodi pysgodfeydd morol yng Nghymru, a hi sy'n gyfrifol yn awr am waith Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru a rhan Cymru o Gyngor Cynghori Rhanbarthol Dyfroedd y Gogledd Orllewin. Mae Rhannau 6 a 7 o Ddeddf y Môr yn gwneud darpariaethau ar gyfer rheoli pysgodfeydd, gan ddiwygio nifer o Ddeddfau ac **ymestyn pwerau Llywodraeth Cymru i ddarparu cyfrifoldeb llawn i reoleiddio a gorfodi gweithgarwch pysgodfeydd.**

Nod Rhan 6 yw ceisio moderneiddio trefniadau rheoli pysgodfeydd a'r amgylchedd ar y glannau yng Nghymru a Lloegr er mwyn sicrhau bod yr adnoddau morol yn cael eu rheoli mewn ffordd sy'n gynaliadwy, sy'n sicrhau cydbwysedd cymdeithasol ac economaidd gyda'r gwaith o ddiogelu'r amgylchedd morol, ac sy'n cydbwyso anghenion gwahanol pobl sy'n defnyddio pysgodfeydd môr.Mae Rhan 7 yn gwneud nifer o ddiwygiadau i ddeddfwriaeth flaenorol, gan gynnwys *Deddf Pysgodfeydd Môr (Cadwraeth) 1967*[30], *Deddf Pysgodfeydd Môr (Pysgod Cregyn) 1967*[31] a *Deddf Adnoddau Dŵr 1991*[32].

---

[28] ***Deddf Diogelu Bwyd a'r Amgylchedd 1985*** (Saesneg yn unig) [fel ar 9 Gorffennaf 2014]
[29] ***Deddf Amddiffyn y Glannau 1949*** (Saesneg yn unig) [fel ar 9 Gorffennaf 2014]
[30] ***Deddf Pysgodfeydd Môr (Cadwraeth) 1967*** (Saesneg yn unig) [fel ar 9 Gorffennaf 2014]
[31] ***Deddf Pysgodfeydd Môr (Pysgod Cregyn) 1967*** (Saesneg yn unig) [fel ar 9 Gorffennaf 2014]
[32] ***Deddf Adnoddau Dŵr 1991*** [fel ar 9 Gorffennaf 2014]

## Gorfodi

Mae Rhan 8 o Ddeddf y Môr yn ceisio symleiddio a moderneiddio pwerau gorfodi morol. Mae'r Sefydliad Rheoli Morol a Llywodraeth Cymru yn gallu penodi swyddogion gorfodi i orfodi deddfwriaeth trwyddedu morol, cadwraeth a physgodfeydd. Mae Swyddogion Gorfodi Morol Llywodraeth Cymru yn ymchwilio ac yn cymryd camau gorfodi pan fydd achosion o dorri rheoliadau'n cael eu nodi [33].

## Mynediad i'r Arfordir

Mae Rhan 9 o Ddeddf y Môr yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gyflwyno mynediad i'r arfordir yng Nghymru ar sail statudol os dymunant wneud hynny. Fodd bynnag, ar ôl y refferendwm yn 2011, nid oedd angen y pwerau hyn oherwydd bod gan y Cynulliad y pŵer yn awr i gyflwyno Bil ar fynediad i'r arfordir pe bai'n dymuno gwneud hynny. Mae'n bwysig nodi bod llwybr yr arfordir wedi cael ei ddatblygu yng Nghymru ar sail wirfoddol yn bennaf.

# Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am **Ddeddf y Môr**, cysylltwch â **Nia Seaton** (**Nia.Seaton@Wales.gov.uk**), Gwasanaeth Ymchwil.

**Gweler hefyd:**

- **Hysbysiad hwylus** Datganiad Polisi Morol y Gwasanaeth Ymchwil
- **Nodyn ymchwil** Cynllunio Gofodol Morol y Gwasanaeth Ymchwil
- **Papur ymchwil** Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol y Gwasanaeth Ymchwil

Gellir gweld ein **hystod lawn o gyhoeddiadau** ar wefan y Cynulliad: **assemblywales.org/research**

Gallwch hefyd ein dilyn ar Twitter: **@SeneddYmchwil**

Rydym yn croesawu eich sylwadau. Dylid eu hanfon i: **Gwasanaeth Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd, CF99 1NA** neu eu hanfon drwy e-bost at **Research.Service@wales.gov.uk**

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi llunio'r Hysbysiad Hwylus hwn er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Mae'r awduron ar gael i drafod cynnwys y papurau hyn gydag Aelodau a'u staff ond ni allant roi cyngor i aelodau o'r cyhoedd.

**Ymholiad rhif: 14/1895**

**Enw'r awdur** Alexander Royan

[33] Llywodraeth Cymru, ***Monitro a gorfodi pysgodfeydd***, (gwefan) [fel ar 9 Gorffennaf 2014]